OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1880 (Cy.189)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(3), (4), (5) a (9) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2002 neu wedyn.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "£11,952" rhoddir "£12,227".

(3) Yn lle rheoliad 2(3)(a) a (b) rhoddir—

"(a) £75 where the relevant income does not exceed £11,368; and

(b) £39 where that income exceeds £11,368 but does not exceed £12,227."

(4) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£11,129" rhoddir "£11,381"; a

(b) ym mharagraff (4)—

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/1969, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy.137) ac O.S. 2001/2708 (Cy.227).